

Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd Supporting Businesses in Gwynedd



Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 20.10.2021

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau ebost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar:
<https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19>
- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on:
<https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19>

DIGWYDDIAD: Arddangos Datrysiad SMART – Helpu llefydd i ddeall eu dinasyddion 21 Hydref 2021

Mae'r Arddangosfeydd Datrys Trefi SMART yn rhan o brosiect 'Blwyddyn Trefi SMART'. Mae 'Hello Lamp Post' yn blatfform cyfathrebu ac ymgysylltu sy'n cysylltu pobl â'u tref neu ddinas, gan ddefnyddio AI. Cynhelir y weminar am ddim yma o 12:00pm-1:00pm ar 21 Hydref 2021. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

<https://bit.ly/3BW0rIV>

ARIANNU: Cronfa Benthyciadau Canol Tref Gwynedd

Mae Cronfa Benthyciadau Canol Tref Gwynedd ar gael i berchnogion eiddo, sydd angen gwelliannau, wedi'u lleoli yng nghanol trefi Gwynedd. Pwrpas y benthyciad yw gwella'r eiddo ar gyfer perchnogaeth barhaol, i'w werthu, i'w osod, neu i wneud defnydd o safle gwag. Am fwy o wybodaeth, ac i wneud cais, ewch i:

<http://bit.ly/CronfaCanolTref>

DIGWYDDIAD: Sut i ddefnyddio'ch stori i farchnata eich busnes 29 Hydref 2021

Digwyddiad hanfodol i unrhyw un sydd am farchnata eu hunain neu eu busnes, gyda siaradwr gwadd arbennig – David Hieatt o Hiut Denim. Mi fydd y digwyddiad mewn person yma yn cael ei gynnal yn M-SParc, Gaerwen, ar 29 Hydref 2021, o 10:00am-11:30am. Am fwy o wybodaeth, ac i archebu lle, ewch i:

<https://bit.ly/3G2RWaU>

RECRIWTIO: Recriwtio Pobl sy'n Gadael Carchar – Uwchgynhadledd Cyflogwyr 2021

Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnal digwyddiad rhithwir rhyngweithiol am ddim i gefnogi busnesau o bob sector sydd â diddordeb mewn recriwtio pobl sy'n gadael carchar. Bydd busnesau blaenllaw sydd eisoes yn cael budd o recriwtio pobl sy'n gadael carchar, gan gynnwys Timpson, Greene King a Greggs yn cymryd rhan yn y digwyddiad i'w gynnal ar 21 Hydref 2021. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

<https://seewhatsontheinside.com/>

AROLWG: Amgueddfa Lechi Cymru – Ddoe, Heddiw a Fory

Wedi dod yn rhan o Safle Treftadaeth Byd UNESCO eleni, a dathlu eu penblwydd yn 50 flwyddyn nesaf, mae Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, yn cymryd y cyfle i edrych i'r dyfodol. Fel rhan o'r broses o siapio eu camau nesaf, mae cyfle i chi rannu eich syniadau efo nhw trwy lenwi arolwg byr, ewch i:

<https://amgueddfa.cymru/llechi/be-nesa/>

CYFLOGAETH: GO Wales – Helpu myfyrwyr ddatblygu sgiliau ar gyfer y gweithle

Mae rhaglen GO Wales: Cyflawni Trwy Brofiad Gwaith, ym Mhrifysgol Bangor, yn chwilio am gwmnïau/timau cyfrifyddiaeth i helpu myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau cyflogadwyedd trwy gynnal cyfleoedd profiad gwaith. I gysylltu, e-bostiwch: gowales@bangor.ac.uk

Am fwy o wybodaeth, ewch i:

<http://www.gowales.co.uk/hafan.html>

DIGWYDDIAD: Digwyddiadau rhithwir am ddim FSB

- 21 Hydref 2021, 12:00pm-1:00pm: 'Cyber Security and the Small Business'

Gweminar i helpu chi i ddeall y bygythiadau rydych chi'n eu hwynebu fel busnes, yr effaith y gall seiber-ymosodiad cydgysylltiedig ei chael ar gwmni bach, a'r hyn y gallwch chi ei wneud i leihau eich siawns o gael eich targedu. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

<https://bit.ly/2Z56sOB>

- 26 Hydref 2021, 12:00pm-1:30pm: 'Delivering Disability Equality through Small Businesses'
Mae'r weminar hon yn archwilio sut y gall arfer da, technolegau newydd a gwell dealltwriaeth sicrhau buddion enfawr i bobl anabl a'r busnesau bach sy'n eu cyflogi a'u gwasanaethu. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i: <https://bit.ly/3IWLbPO>

RECRIWTIO: Cymru'n Gweithio – Ymgyrch recriwtio/gyrfaoedd Twristiaeth a Lletygarwch

Fel rhan o'r ymgyrch, mae pecyn cymorth bellach ar gael i helpu gyda recriwtio staff a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd gyrfagwch ym maes twristiaeth a lletygarwch. I lawrlwytho'r pecyn cymorth, ewch i:

<https://assets.wales.com/pages/assets?tags=EMCP>

Mae mwy o wybodaeth am ymgyrch Cymru'n Gweithio ar:

<https://cymrungweithio.llyw.cymru/newid-dy-stori/gweithio-ym-maes-twristiaeth-a-lletygarwch>

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19>

<https://twitter.com/BusnesGwynedd>

Rhwydwaith Busnes Gwynedd

<https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan>

<https://twitter.com/gwyneddbusnes>

Busnes Cymru

<https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/>

https://twitter.com/_busnescymru

Busnes@llandrillomenai

<https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts>

<https://twitter.com/busnesLLM>

FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

Croeso Cymru

<https://twitter.com/croesocymrubus>

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf

<https://bit.ly/3kIWPAU>

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:

E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru